





# Arolwg Barn Radio Cymru 2012

**Hanner can mlynedd wedi Tynged yr Iaith, darlith enwog Saunders Lewis, cynhaliodd BBC Radio Cymru arolwg i gasglu barn pobl ledled Cymru am yr iaith Gymraeg.**

Yn 1962, proffwydodd Saunders Lewis ddiwedd ar yr iaith Gymraeg fel 'iaith fyw' erbyn dechrau'r unfed ganrif ar hugain. Hanner can mlynedd yn ddiweddarach, holwyd dros 1,000 o bobl ar draws Cymru - yn siaradwyr Cymraeg ac yn rhai nad oedden nhw'n siarad yr iaith - am eu hagwedd tuag at yr iaith.

- Roedd y sampl yn cynnwys 510 o siaradwyr Cymraeg a 510 o rai di-Gymraeg, ac mae'r canlyniadau wedi eu pwysoli i boblogaeth Cymru.
- Cafodd yr arolwg ei gynnal gan gwmni Beaufort Research.

## Statws yr iaith

Dyma ganlyniadau'r cwestiwn:

**A oes angen cryfhau statws y Gymraeg ymhellach?**

| | Cyfartaledd | Cymry Cymraeg | Di-Gymraeg | Y Gogledd a'r Canolbarth | Y Gorllewin | Y De ddwyrain |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Oes | 59% | 72% | 56% | 61% | 55% | 59% |
| Nac oes | 35% | 24% | 38% | 31% | 38% | 36% |
| Ddim yn gwybod | 6% | 5% | 6% | 7% | 7% | 5% |

Credai bron i dri o bob pump bod angen cryfhau statws yr iaith ymhellach. Siaradwyr Cymraeg ac yn arbennig y rhai 16-24 oedd fwyaf o blaid hyn. Roedd dros saith o bob deg siaradwr Cymraeg yn credu bod angen cryfhau statws yr iaith, ac er bod y ganran yn llai ar gyfer y di-Gymraeg, sef 56%, mae hyn yn fwy na'u hanner.

## Defnyddio'r iaith

Er bod y sefyllfa o ran yr hawl i ddefnyddio'r iaith wedi gwella yn aruthrol ers 1962, llai na hanner y siaradwyr Cymraeg a holwyd sy'n defnyddio'r Gymraeg o gwbl wrth drafod â chwmnïau a sefydliadau gwahanol. Mae'r niferoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg yn is ymhlith siaradwyr Cymraeg yn y de ddwyrain ac ymhlith y rhai ifanc. Mae canran uwch yn defnyddio'r Gymraeg yn y siopau a'r archfarchnadoedd (47%), a gyda'r cynghorau neu'r Llywodraeth (42%) na gyda'r banciau a chwmnïau ariannol (31%) a'r cwmnïau ffôn, trydan, nwy a dŵr (23%).

O ran defnyddio'r iaith, dim ond hanner y siaradwyr Cymraeg oedd yn credu bod angen mwy o bwyslais ar gywirdeb iaith yn gyffredinol. Roedd amrywiaeth barn o blith y grwpiau oedran - gyda mwy o'r rhai iau na'r rhai hŷn o'r farn bod angen mwy o bwyslais ar gywirdeb iaith.

## Yr hawl i Addysg Gymraeg

Roedd gwahaniaeth barn amlwg rhwng siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg i'r cwestiwn – a ddylai rhieni a disgyblion yng Nghymru gael dewis peidio ag astudio Cymraeg fel pwnc yn yr ysgol. Tra bo dros hanner (55%) y siaradwyr Cymraeg yn erbyn rhoi dewis, roedd dros hanner (56%) y rhai di-Gymraeg o blaid rhoi dewis.

Credai 72% mai sicrhau bod addysg Gymraeg ar gael yw'r ffactor pwysicaf wrth ddiogelu'r iaith, o'i gymharu â 25% a gredai mai'r ffactor pwysicaf yw bod rhieni yn dewis addysg Gymraeg i'w plant.

## Cymreictod

O ran Cymreictod, llai na thraean (32%) y rhai a holwyd oedd o'r farn bod y gallu i siarad Cymraeg yn gwneud unigolyn yn fwy o Gymro. Siaradwyr Cymraeg oedd fwyaf tebygol o feddwl hyn, ond roeddent yn y lleiafrif (43%).

| | Cyfartaledd | Cymry Cymraeg | Di-Gymraeg | Gogledd | Canol. a Gorllewin | De ddwyrain |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ydyn | 29% | 28% | 29% | 29% | 32% | 28% |
| Nac ydyn | 64% | 68% | 63% | 64% | 62% | 65% |
| Dim yn gwybod | 7% | 4% | 8% | 7% | 7% | 7% |

| | Cyfartaledd | Cymry Cymraeg | Di-Gymraeg | Y Gogledd a'r Canolbarth | Y Gorllewin | Y De ddwyrain |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ydy | 83% | 87% | 83% | 83% | 85% | 83% |
| Nac ydy | 13% | 7% | 14% | 11% | 11% | 14% |
| Dim yn gwybod | 4% | 5% | 4% | 6% | 3% | 3% |




